Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

**YGG Parc y Tywyn :**

# Polisi Diogelu Plant

## Cyflwyniad

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Parc y Tywyn yn cydnabod yn llawn y cyfraniad y mae'n ei wneud i amddiffyn plant.

Mae tair prif elfen i'n polisi:

- atal drwy'r addysgu a'r cymorth bugeiliol a gynigir i ddisgyblion, a'r defnydd o wasanaethau ataliol, fel y Tîm o Amgylch y Teulu mewn ysgolion
- gweithdrefnau ar gyfer adnabod ac adrodd am achosion, neu achosion tybiedig, o gam-drin neu niwed. O ganlyniad i'n cyswllt dyddiol gyda phlant, mae staff yr ysgol mewn sefyllfa dda i sylwi ar yr arwyddion allanol o gam-drin,
- cymorth i ddisgyblion sydd mewn angen neu a allai fod wedi cael eu cam-drin.

Mae ein polisi yn berthnasol i **<u>holl</u>** staff, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr sy'n gweithio yn yr ysgol. Gall cynorthwywyr cymorth dysgu, goruchwylwyr canol dydd, gofalwyr, ysgrifenyddion yn ogystal ag athrawon fod y pwynt datgelu cyntaf i blentyn.
Bydd ein hysgol yn adolygu'r polisi yn flynyddol ac mae wedi ymrwymo i ddilyn unrhyw ganllawiau newydd a dderbynnir gan Gyngor Sir Caerfyrddin neu Lywodraeth Cymru.

Yr Uwch Berson(au) Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant yn yr ysgol hon yw:

Mrs Angharad Williams (Pennaeth)

## Atal

Rydym yn cydnabod bod hunan-barch uchel, hyder, ffrindiau cefnogol a llinellau cyfathrebu da gydag oedolyn dibynadwy yn helpu i ddiogelu disgyblion.

<u>Felly, bydd yr ysgol yn:</u>

- Sefydlu a chynnal ethos lle mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu hannog i siarad, ac y gwrandewir arnynt

- Sicrhau bod plant yn gwybod bod oedolion yn y lleoliad addysg y gallant fynd atynt os ydynt yn poeni neu mewn trafferth
- Cynnwys gweithgareddau a chyfleoedd ar gyfer addysg cydberthynas a rhywioldeb yn y cwricwlwm, sy'n meithrin y sgiliau sydd eu hangen ar blant i gadw'n ddiogel rhag camdriniaeth ac i wybod at bwy i droi am help
- Cynnwys deunydd a fydd yn helpu plant i ddatblygu agweddau realistig tuag at gyfrifoldebau bywyd fel oedolyn yn y cwricwlwm, yn enwedig o ran gofal plant a sgiliau magu plant
- Meithrin perthynas ag asiantaethau eraill a sicrhau atgyfeiriadau cynnar a phriodol am gymorth ac ymyrraeth cyn i risgiau ddwysáu
- Mabwysiadu agwedd ysgol gyfan at lesiant a fydd yn ymgorffori mesurau diogelu ac ataliol i gefnogi plant a theuluoedd

## Gweithdrefnau

**Dylid dilyn y rhain os bydd achos datgeliad/pryder amddiffyn plant**

Byddwn yn dilyn Gweithdrefnau Diogelu Cymru sydd wedi'u cymeradwyo gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant. Bydd yr ysgol yn:

- Sicrhau bod ganddi Uwch Berson Dynodedig ar gyfer amddiffyn plant sydd wedi cael yr hyfforddiant priodol. **Y person hwn/y bobl hyn yw......**
    - Prif Swyddog Diogelu - Mrs Angharad Williams (Pennaeth)
    - Dirprwy Swyddog Diogelu - Mrs Elin Zych (Dirprwy Bennaeth)
    - Swyddog Diogelu – Miss Angharad Griffiths (CADY)
    - Mr Mathew Davies (Cadeirydd Llywodraethwyr) E-bost DaviesM1926@hwbcymru.net neu cwblhau ffurflen ar ein gwefan at y Cadeirydd drwy’r ddolen isod: https://www.ysgolparcytywyn.co.uk/diogelu-safeguarding/

- Cydnabod rôl yr Uwch Berson Dynodedig a threfnu cefnogaeth a hyfforddiant

**Sicrhau bod pob aelod o staff a phob llywodraethwr yn gwybod:**

- Enw'r Uwch Berson Dynodedig a'i rôl, pwynt cyswllt yr awdurdod lleol a'r llywodraethwr penodedig ar gyfer diogelu
- - bod ganddynt gyfrifoldeb unigol dros roi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol, neu i'r heddlu am blant sydd mewn perygl a phryderon amddiffyn, o fewn y ffiniau amser y cytunwyd arnynt gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar sut i ddelio â’r pryderon hynny pan nad yw'r Uwch Berson Dynodedig ar gael

- Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r angen i fod yn effro i arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod, ac yn gwybod sut i ymateb i ddysgwr a all ddatgelu camdriniaeth neu esgeulustod.

- Sicrhau bod aelodau o staff sydd wedi cofrestru â CGA yn ymwybodol o'r *Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol ar gyfer cofrestryddion gyda Chyngor y*

*Gweithlu Addysg* (gweler www.cga.cymru/site/index.php/cy/cymhwyster-i-ymarfer/cod-ymddygiad-ac-ymarfer–proffesiynol-pdf.html) a'r disgwyliad o fewn y Cod bod yr unigolyn cofrestredig yn rhoi sylw i ddiogelwch a llesiant dysgwyr yn eu gofal a chynnwys cysylltiedig.

- Sicrhau bod gan rieni/gofalwyr ddealltwriaeth o'r cyfrifoldeb sydd wedi'i roi ar yr ysgol/coleg/lleoliad addysg a staff ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant drwy nodi eu disgwyliadau yn llawlyfr yr ysgol.

**Darparu hyfforddiant i'r holl staff fel eu bod:**

- yn deall eu cyfrifoldeb personol
- yn ymwybodol o’r gweithdrefnau lleol y cytunwyd arnynt a'u dyletswydd i ymateb
- yn ymwybodol o'r angen i fod yn wyliadwrus wrth gydnabod achosion o gam-drin ac esgeuluso
- gwybod sut i gefnogi plentyn sy'n datgelu camdriniaeth neu esgeulustod
- deall y rôl y gallai ymddygiadau ar-lein ei chael ym mhob un o'r uchod

- **Hysbysu tîm gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol:**

- os oes dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant wedi'i wahardd, naill ai am gyfnod penodol neu’n barhaol
- os yw dysgwr sydd ar y gofrestr amddiffyn plant yn absennol heb esboniad am fwy na dau ddiwrnod ysgol (neu un diwrnod yn dilyn penwythnos)
- gweithio i ddatblygu cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau perthnasol a chydweithio yn ôl y galw â'u hymholiadau ynghylch materion amddiffyn plant, gan gynnwys mynychu adolygiad cychwynnol yn ogystal â chynadleddau amddiffyn plant a grwpiau craidd a chyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i'r cynadleddau
- cadw cofnodion ysgrifenedig o bryderon am blant (gan nodi'r dyddiad, y digwyddiad a'r camau a gymerwyd), hyd yn oed lle nad oes angen cyfeirio'r mater at yr awdurdod lleol yn syth
- sicrhau bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n ddiogel ac mewn lleoliadau dan glo
- cadw at y gweithdrefnau a nodir gan Lywodraeth Cymru yn *Disgyblu a gweithdrefnau diswyddo i staff ysgol: Canllawiau diwygiedig i gyrff llywodraethol* (gweler llyw.cymru/gweithdrefnau-disgyblu-diswyddo-staff-ysgol)
- sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio a dethol yn cael eu gwneud yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru *Cadw dysgwyr yn ddiogel*
- penodi llywodraethwr ar gyfer diogelu a fydd yn goruchwylio polisi ac arfer amddiffyn plant yr ysgol/coleg.

## Cefnogi’r rhai sydd mewn perygl

Rydym yn cydnabod y gall plant/pobl ifanc sydd mewn perygl, yn dioddef camdriniaeth neu'n profi trais gael eu heffeithio'n fawr gan hynny.

**Diffiniad cam-drin a niwed**
Caiff ddiffiniad cam-drin a niwed ei ddarganfod yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru: [Diogelu Cymru](Diogelu Cymru)

Mae cam-drin a niwed yn dod o dan y categorïau yma;

- Camdriniaeth corfforol
- Camdriniaeth emosiynol/seicolegol
- Camdriniaeth rywiol
- Camdriniaeth ariannol
- Esgeulustod

Efallai mai'r ysgol hon hwn yw'r unig leoliad sefydlog, diogel a dibynadwy sydd ym mywydau plant sydd mewn perygl. Serch hynny, pan fyddant yn yr ysgol gall eu hymddygiad fod yn heriol ac yn herfeiddiol neu efallai eu bod yn fewnblyg.

**Bydd yr ysgol yn ymdrechu i gefnogi'r dysgwr drwy**:

- gynnwys cwricwlwm sydd yn annog hunan-barch a hunan-gymhelliant
- ethos yr ysgol/coleg sydd yn:
  - hyrwyddo amgylchedd cadarnhaol, cefnogol a diogel
  - rhoi ymdeimlad o werth i ddysgwyr (gweler adran 2 ar Atal)
- polisi ymddygiad yr ysgol/coleg/lleoliad addysg, sydd wedi'i anelu at gefnogi disgyblion agored i niwed yn yr ysgol/coleg. Bydd yr holl staff yn cytuno ar ddull cyson sy'n canolbwyntio ar ganlyniad ymddygiadol y plentyn ond nad yw'n niweidio ymdeimlad yr unigolyn o hunanwerth. Bydd yr ysgol/coleg/lleoliad addysg yn ymdrechu i sicrhau bod y dysgwr yn gwybod bod elfennau o ymddygiad yn annerbyniol ond ei fod yn cael ei werthfawrogi ac nad yw ar fai am unrhyw gam-drin sydd wedi digwydd

- cysylltu ag asiantaethau eraill sy'n cefnogi'r dysgwr fel swyddogion yr awdurdod lleol – er enghraifft, y gwasanaeth seicoleg addysg, gwasanaethau cymorth ymddygiad neu'r Gwasanaeth Lles Addysg – gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a gwasanaethau eiriolaeth

- cadw cofnodion a hysbysu'r awdurdod lleol cyn gynted ag y bydd achos o bryder yn ailymddangos.

- Mae angen i awdurdodau lleol, cyrff llywodraethu a pherchenogion hefyd allu dangos eu bod wedi ystyried a oes gan blant, gan gynnwys plant unigol, yn eu

hardal unrhyw anghenion diogelu penodol yn ychwanegol at y rhai a nodir gan ganllawiau. Os felly, rhaid iddynt fod â pholisïau a gweithdrefnau ar waith i ddiwallu'r anghenion hynny

Pan fydd dysgwr ar y gofrestr amddiffyn plant yn gadael, byddwn yn trosglwyddo gwybodaeth i'r darparwr newydd ar unwaith ac yn hysbysu'r gwasanaethau cymdeithasol.

**Anfonir pob atgyfeiriad amddiffyn plant i'r;**

**Tîm Atgyfeirio Canolog-**

**☎ 01554 742322** **💻 CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk**

**Y Tu Allan i Oriau- ☎ 0300 333 2222.**


- Central Referral Team- 01554 742322

CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk

Tu allan o oriau swyddfa - 0300 333 2222.

- Becky Thomas: 01554 742369 / 07976 466399

Uwch Weithiwr Cymdeithasol: Ysgolion




## Gwrth-fwlio

Our policy on anti-bullying is set out in the school's anti-bullying policy and is reviewed annually by the governing body.

Cofnodir ein polisi ar wrth-fwlio ym mholisi gwrth-fwlio yr ysgol ac fe'i hadolygir yn flynyddol gan y corff llywodraethu.

## Ymyrraeth Gorfforol

Cofnodir ein polisi ar ymyrraeth gorfforol mewn [dogfen ar wahân] ac fe'i hadolygir yn flynyddol gan y corff llywodraethu, yn unol â Chanllawiau'r Llywodraeth *Ymyrraeth ddiogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau*.

## Plant ag anghenion dysgu ychwanegol

Rydym yn cydnabod, yn ôl ystadegau, mai plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd fwyaf mewn perygl o gamdriniaeth. Mae angen i staff sydd yn gweithio gyda phlant ag anghenion dysgu ychwanegol, fel anableddau dwys a niferus, nam ar y synhwyrau neu broblem emosiynol ac ymddygiadol, fod yn arbennig o sensitif i arwyddion o gamdriniaeth.

| | Name | Signature | Date |
|---|---|---|---|
| Cadeirydd Llywodraethwyr | Mathew Davies | MDavies | 15/09/24 |
| Pennaeth | Angharad Williams | AWilliams | 16.07.25 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Adolygu | Mai 2026 |